

Patrwm cyflwyno O fis Tachwedd i fis Ebrill

Disgrifiad o'r modiwl

Yn aml, data yw ased mwyaf gwerthfawr sefydliad ond mae angen rheoli data'n ofalus er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn manteisio i'r eithaf arnynt. Mae'r modiwl hwn yn cwmpasu'r egwyddorion, yr arferion a'r technolegau rheoli data sydd eu hangen i ddatblygu polisïau, gweithdrefnau a systemau sy'n rheoli, diogelu, cyflwyno a chynyddu gwerth ased data sefydliad. Bydd myfyrwyr yn meithrin sgiliau ymarferol ym maes rheoli data, cronfa ddata, meta-data a chudd-wybodaeth busnes. Ymysg y testunau mae: dadansoddi data a modelu; ansawdd a diogelwch data; data strwythuredig a lled-strwythuredig; cronfeydd data perthynol ac amherthynol; cronfeydd data gwasgaredig a chronfeydd data cwmwl; data warws a chloddio data; NoSQL a 'Data Mawr'. Mae'r modiwl yn dilyn Fframwaith Gweithredol Corff o Wybodaeth Rheoli Data (DMBOK) Cymdeithas Rheoli Data (DAMA).

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- profiad o ddatblygu polisïau, gweithdrefnau a systemau strategol ar gyfer sefydliad;
- profiad o arwain y broses o fabwysiadu gwaith rheoli data neu addysgu egwyddorion ac arferion rheoli data;
- gwybodaeth am swyddogaethau rheoli data gan gynnwys pensaernïaeth data, modelu a chynllunio data, storio data, rheoli dogfennau a chynnwys, data cyfeirio a meistr, integreiddio data, cudd-wybodaeth busnes, a rheoli ansawdd data;
- dealltwriaeth lefel busnes (strategol) o lywodraethu data a rheoli diogelwch data;
- ymwybyddiaeth o ddatblygiadau a heriau diweddar ym maes rheoli data sy'n deillio o'r cynnydd yn nifer ac amrywiaeth y data a gasglwyd gan unigolion a sefydliadau mewn blynyddoedd diweddar;
- y gallu i roi arweiniad i fyfyrwyr greu cysylltiad rhwng deunyddiau'r modiwl a'u profiadau eu hunain, a pharodrwydd i helpu myfyrwyr i nodi meysydd o'u profiad sefydliadol ar gyfer eu hasesiad parhaus;
- profiad o ddefnyddio amrywiaeth o dechnolegau a thechnegau rheoli data a dealltwriaeth ohonynt.

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

gwybodaeth am dechnolegau arbenigol a datblygol ar gyfer rheoli data gan gynnwys y canlynol:

- cronfeydd data gwasgaredig;
- cronfeydd data cwmwl;
- data warws;
- cloddio data;
- cronfeydd data NoSQL.

Manylion sy'n gysylltiedig â'r modiwl – gellir dod o hyd i eglurhad llawn ar y wefan

<i>Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:</i>	30
<i>Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:</i>	3
<i>Dull cyflwyno ar gyfer aseiniadau:</i>	2
<i>Lefel y gofynion TGCh:</i>	3
<i>Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:</i>	20
<i>Band cyflog:</i>	4
<i>Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:</i>	6